

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 105/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o isafswm
pris uned o alcohol yng Nghymru

Adroddiad Cryno



CRYNODEB GWEITHREDOL

PRIF GASGLIADAU

Mae amcangyfrifon o addasiad Cymru o Fodel Polisi Alcohol Sheffield (fersiwn 3) (SAPM3) yn awgrymu'r canlynol:

1. Byddai'r polisïau Isafswm Pris Uned yn effeithiol o ran lleihau faint o alcohol a gaiff ei yfed, y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (yn cynnwys marwolaethau, derbyniadau i'r ysbyty, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle sy'n gysylltiedig ag alcohol) a'r costau sydd ynghlwm wrth y niwed hwnnw.
2. Byddai gwahardd pobl rhag gwerthu'n is na'r gost (a fyddai'n gweithredu fel gwaharddiad ar werthu alcohol am gost is na'r doll ynghyd â'r TAW sy'n daladwy ar y doll honno) yn cael effaith fach iawn ar faint o alcohol a gaiff ei yfed neu'r niwed cysylltiedig.
3. Dim ond effaith fach y byddai'r polisïau Isafswm Pris Uned yn ei chael ar yfwyr cymedrol. Byddai effeithiau mwy o faint yn cael eu profi gan yr yfwyr risg gynyddol, gyda'r effeithiau mwyaf sylweddol yn cael eu profi gan yr yfwyr risg uchel.
4. Byddai'r polisïau Isafswm Pris Uned yn cael mwy o effaith ar y rheini mewn tlodi, yn arbennig yr yfwyr risg uchel, na'r rheini nad ydynt mewn tlodi. Fodd bynnag; mae'r rheini mewn tlodi hefyd yn cael mwy o enillion cymharol o ran iechyd ac amcangyfrifir bod yr yfwyr risg uchel yn gostwng eu gwariant fymryn am eu bod yn yfed llai o dan lawer o'r polisïau.

CWESTIYNAU YMCHWIL

1. Beth fyddai effaith amcangyfrifedig y polisïau Isafswm Pris Uned sy'n amrywio o 35c i 70c yr uned pe bai'r polisïau'n cael eu cyflwyno yn 2014?
2. Beth fyddai effaith amcangyfrifedig gwaharddiad ar werthu'n is na'r gost?
3. Sut mae'r effeithiau hyn yn amrywio yn ôl grŵp yfwyr (cymedrol, risg gynyddol, risg uchel) ac yn ôl grŵp incwm (mewn tlodi, ddim mewn tlodi)?

DULLIAU A DDEFNYDDIWDYD

Defnyddiwyd Model Polisi Alcohol Sheffield (SAPM) yn flaenorol yn Lloegr ac yn yr Alban i ddadansoddi effeithiau posibl polisïau prisio. Rydym wedi datblygu fersiwn newydd o'r model i ymgorffori data a thystiolaeth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth Cymru.

Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi casglu data a thystiolaeth o'r holl ffynonellau a oedd ar gael fel a ganlyn:

- Gwybodaeth am faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwybodaeth ddemograffig – Arolwg Cyffredinol o Ffordd o Fyw
- Trafodion prynu alcohol a'r prisiau a dalwyd mewn allfeydd all-fasnach (e.e. archfarchnadoedd) ac allfeydd mewn-fasnach (e.e. tafarnau, bariau) yn ôl is-grwpiau gwahanol o'r boblogaeth – Arolwg o Gostau Byw a Bwyd

- Dosbarthiadau pris alcohol mewn archfarchnadoedd ac allfeydd eraill all-fasnach - Nielson
- Dewisiadau alcohol ar gyfer gwahanol fathau o ddiodydd yn ôl is-grwpiau gwahanol o'r boblogaeth – yr Arolwg Cyffredinol o Ffordd o Fyw ynghyd â'r Arolwg o Gostau Byw a Bwyd
- Elastigedd pris – gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn flaenorol
- Cyfraddau derbyn i'r ysbyty ar gyfer afiechydon sy'n gysylltiedig ag alcohol – data derbyn i'r ysbyty GIG Cymru
- Cyfraddau marwolaeth ar gyfer afiechydon sy'n gysylltiedig ag alcohol - data ar farwolaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
- Costau gofal iechyd ar gyfer afiechydon sy'n gysylltiedig ag alcohol – gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn flaenorol
- Cyfraddau troseddau – ffigurau'r Swyddfa Gartref ar droseddau a gofnodwyd a data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfraddau collfarnu yn ôl is-grwpiau o'r boblogaeth
- Costau plismona a chyfiawnder – amcangyfrifon y Swyddfa Gartref o gostau uned troseddau
- Cyfraddau absenoldeb o'r gwaith, cyfraddau cyfranogi mewn gwaith a chyfraddau cyflog cyfartalog yn ôl is-grwpiau o'r boblogaeth – Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu

Mae'r model yn cyfodod yr holl ddata a'r dystiolaeth hon ac yn modelu effaith amcangyfrifedig polisiâu prisiau posibl yn y dyfodol ar faint o alcohol a gaiff ei yfed, gwariant ar alcohol, derbynebau'r Canghellor a manwerthwyr a niwed o ran iechyd, troseddau a'r gweithle.

CRYNODEB O GANFYDDIADAU'R MODEL

Patrymau yfed a gwariant

C1. Mae'r dystiolaeth yn amcangyfrif ymhlith poblogaeth gyffredinol Cymru sy'n 16+ oed, mai cyfran yr ymwrthodwyr a'r bobl sy'n yfed ar lefel gymedrol (llai na 21 uned yr wythnos i ddynion ac 14 i ferched), ar lefel risg gynyddol (21-50 uned yr wythnos i ddynion ac 14-35 uned i ferched) ac ar lefel risg uchel (mwy na 50 uned yr wythnos i ddynion a 35 i ferched) yw 16.0%, 62.5%, 15.8% a 5.7% yn y drefn honno.

C2. Mae yfwyr cymedrol yn yfed 5.5 uned yr wythnos ar gyfartaledd, gan wario £310 y flwyddyn ar alcohol. Mae yfwyr risg gynyddol yn yfed 27.8 uned yr wythnos, gan wario £1,190 y flwyddyn, ac mae yfwyr risg uchel yn yfed 78.1 uned yr wythnos ar gyfartaledd, gan wario £2,960 y flwyddyn. Mae'r patrymau hyn yn amrywio i raddau wrth eu hystyried yn ôl grŵp incwm, gyda'r yfwyr cymedrol mewn tlodi yn yfed 4.9 uned yr wythnos ar gyfartaledd, gan wario £200 y flwyddyn, tra bo'r yfwyr cymedrol uwchben y llinell dlodi benodedig yn yfed 5.6 uned yr wythnos ac yn gwario £340 y flwyddyn.

C3. Ar y cyfan, mae'r yfwyr risg gynyddol a risg uchel gyda'i gilydd (26% o'r boblogaeth) yn gyfrifol am 72% o'r holl alcohol a gaiff ei yfed ac am 65% o'r holl wariant ar alcohol. Mae'r yfwyr risg uchel ar eu pen eu hunain (7% o'r boblogaeth) yn gyfrifol am 37% o'r holl alcohol a gaiff ei yfed ac am 31% o'r holl wariant ar alcohol.

C4. Mae'r prisiau'n amrywio yn ôl math o ddiod. Wrth ystyried isafswm pris posibl ar gyfer diod safonol (pris isaf na ellir gwerthu alcohol yn gyfreithlon yn rhatach nag ef) o 50c, awgryma'r dystiolaeth y byddai hyn yn effeithio ar 72.1% o'r holl gwrw all-fasnach, 78.2% o'r seidr all-fasnach, 41.5% o'r gwin all-fasnach a 65.5% o'r gwirodydd all-fasnach ac y byddai'r prisiau'n codi yn sgil hyn.

Effaith polisiâu'r model ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a'r gwariant arno

C5. Ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c, y gostyngiad amcangyfrifedig mewn faint o alcohol a gaiff ei yfed fesul person ar gyfer y boblogaeth gyffredinol yw 4.0%. Mewn termau absoliwt, mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad blynyddol o 30.2 uned fesul yfwr y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd effeithiau polisiâu Isafswm Pris Uned isaf y model yn gymharol fach, gyda'u heffeithiolrwydd yn cynyddu'n sylweddol uwchben 45c yr uned (45c = -2.6%, 50c = -4.0%, 55c = -5.6%).

C6. Mae'r gostyngiadau amcangyfrifedig mewn faint y bydd yr yfwyr risg uchel yn ei yfed yn uwch o lawer ar gyfer polisiâu Isafswm Pris Uned nag ar gyfer yr yfwyr cymedrol neu risg gynyddol. Ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c, y gostyngiadau amcangyfrifedig yw 7.2% ar gyfer yfwyr risg uchel, 2.0% ar gyfer yfwyr risg gynyddol a 2.2% ar gyfer yfwyr cymedrol. Mae'r gwahaniaethau mewn gostyngiadau absoliwt o ran faint a gaiff ei yfed yn uwch o lawer unwaith eto, gyda'r yfwyr risg uchel yn lleihau faint maent yn ei yfed 293.2 uned y flwyddyn (5.6 yr wythnos) ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c, o gymharu â gostyngiad o 28.8 uned ar gyfer yfwyr risg gynyddol a 6.4 uned y flwyddyn ar gyfer yfwyr cymedrol. Mae'r gostyngiadau absoliwt hefyd yn uwch o lawer ar gyfer yfwyr risg uchel mewn tlodi (e.e. gostyngiad o 487.3 uned y flwyddyn o gymharu â 243.0 uned y flwyddyn ar gyfer yfwyr risg uchel nad ydynt mewn tlodi).

C7. Amcangyfrifir bod gwahardd pobl rhag gwerthu'n is na'r gost wedi cael bron dim effaith ar faint o alcohol a gaiff ei yfed gan y boblogaeth, ei gwariant ar alcohol a'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

C8. O dan y polisiâu hyn, amcangyfrifir bod yfwyr yn lleihau faint maent yn ei yfed ond yn talu ychydig yn fwy ar gyfartaledd fesul uned a yfir, ac felly mae'r newidiadau canrannol amcangyfrifedig mewn gwariant yn llai na'r newidiadau amcangyfrifedig mewn faint a yfir. Ar gyfer holl bolisiau'r model, amcangyfrifir y bydd gwariant ar draws y boblogaeth gyfan yn cynyddu, er enghraifft o £10 (1.6%) fesul yfwr y flwyddyn am Isafswm Pris Uned o 50c ynghyd â newid mewn faint a yfir o -4.0%. Mae newidiadau mewn gwariant yn amrywio hefyd ar draws y boblogaeth, gyda'r yfwyr risg uchel yn gwario £32 yn fwy (1.1%) y flwyddyn tra bo gwariant yr yfwyr cymedrol yn cynyddu £2 (0.8%) ar Isafswm Pris Uned o 50c. Amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o'r rheini mewn tlodi yn cynyddu faint maent yn ei wario o dan y rhan fwyaf o'r polisiâu, ac eithrio'r yfwyr risg uchel mewn tlodi sy'n lleihau faint maent yn ei wario pan fydd yr Isafswm Pris Uned yn 55c neu'n fwy.

C9. Mae effaith y polisiâu dan sylw ar is-grwpiau incwm yn amrywio'n enfawr. Ar gyfer yfwyr cymedrol, p'un a ydynt uwchben neu islaw'r lefel dlodi benodedig, mae'r effaith yn fach iawn. Ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c, er enghraifft, amcangyfrifir bod yfwyr cymedrol yn

lleihau faint maent yn ei yfed o 6.4 uned y flwyddyn (e.e. tua thri pheint o gwrw yn ystod y flwyddyn), gyda newid mewn gwariant o £2.37 y flwyddyn, ar gyfartaledd (tua 5c yr wythnos). Mae'r effeithiau ar yfwyr cymedrol mewn tlodi yn llai byth o ran gwariant, e.e. amcangyfrif o £2.15 o wariant ychwanegol y flwyddyn ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c, o gymharu â £2.44 ar gyfer yfwyr cymedrol nad ydynt mewn tlodi, er eu bod yn uwch o ran faint a gaiff ei yfed (gostyngiad o 10.1 uned y flwyddyn ar gyfer yfwyr cymedrol mewn tlodi o gymharu â 5.3 uned y flwyddyn ar gyfer yfwyr cymedrol nad ydynt mewn tlodi). Mae'r gwahaniaeth o ran yfwyr risg uchel yn syfrdanol. Mae yfwyr risg uchel mewn tlodi yn yfed dros 3,700 uned y flwyddyn, ac mae'r model yn amcangyfrif y byddai Isafswm Pris Uned o 50c yn lleihau faint y bydd y grŵp hwn yn ei yfed o 490 uned y flwyddyn (-13.0%).

C10. O dan holl bolisiau'r model (ac eithrio gwahardd pobl rhag gwerthu'n is na'r gost), amcangyfrifir y bydd y refeniw i'r Canghellor (o'r derbynebau TAW a thollau ar alcohol) yn gostwng fymryn, gyda gostyngiad o 1.0% (cyfwerth â £5.8 miliwn) ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c. Amcangyfrifir y bydd y refeniw i fanwerthwyr yn cynyddu ar draws yr holl bolisiau, gyda chynnydd o £27.0 miliwn (3.3%) ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c. Caiff y mwyafrif helaeth o hyn ei Gronni yn yr all-fasnach, er bod disgwyl i fanwerthwyr mewn-fasnach elwa fymryn o dan y rhan fwyaf o'r polisiau (e.e. £2.0 miliwn neu 0.3% o dan Isafswm Pris Uned o 50c).

Effeithiau polisiau'r model ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol

C11. Amcangyfrifir y bydd gostyngiadau sylweddol mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn deillio o holl bolisiau'r model, gyda gostyngiad amcangyfrifedig o 53 marwolaeth yn llai a 1,400 yn llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty'r flwyddyn ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c. Gan fod tystiolaeth ar gael y bydd oedi byr rhwng y newidiadau mewn faint a gaiff ei yfed a'r newidiadau i gyfraddau niwed ar gyfer rhai cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol (e.e. mae cyfraddau canser amrywiol yn cynyddu 10 i 20 mlynedd ar ôl i'r defnydd gynyddu), caiff newidiadau blynyddol mewn canlyniadau iechyd eu cofnodi pan fydd y polisi mewn grym yn llawn (gan ddefnyddio'r 20fed flwyddyn ar ôl rhoi'r polisi ar waith fel procsi ar gyfer hyn).

C12. Amcangyfrifir bod holl bolisiau'r model yn arwain at fwy o ostyngiadau mewn marwolaethau a nifer y derbyniadau i'r ysbyty fesul 100,000 o yfwyr ar gyfer y rheini mewn tlodi na'r rheini nad ydynt mewn tlodi (e.e. 5 marwolaeth yn llai a 120 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty fesul 100,000 o yfwyr ar gyfer y rheini mewn tlodi o dan Isafswm Pris Uned o 50c o gymharu â dwy farwolaeth yn llai a 50 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty fesul 100,000 o yfwyr ar gyfer y rheini nad ydynt mewn tlodi).

C13. Amcangyfrifir y bydd costau uniongyrchol i wasanaethau gofal iechyd yn gostwng o dan holl bolisiau'r model, gydag arbedion o £131 miliwn dros 20 mlynedd ar gyfer trothwy Isafswm Pris Uned o 50c.

C14. Disgwylir i droseddu ostwng, gydag amcangyfrif o 3,684 yn llai o droseddau'r flwyddyn o dan bolisi Isafswm Pris Uned o 50c. Yfwyr risg uchel, sef 5.7% o'r boblogaeth, sy'n gyfrifol am 49% o'r gostyngiad hwn. Amcangyfrifir y bydd costau troseddu yn gostwng £248 miliwn

dros 20 mlynedd o dan y polisi hwn, gyda throthwyon Isafswm Pris Uned uwch yn sicrhau mwy o arbedion byth.

C15. Amcangyfrifir y bydd absenoldebau o'r gweithle yn gostwng o dan holl bolisiâu'r model, gyda gostyngiad o 10,000 o ddiwrnodau o absenoldeb y flwyddyn ar gyfer Isafswm Pris Uned o 50c.

C16. Ar gyfer polisi Isafswm Pris Uned o 50c, amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth cymdeithasol y gostyngiadau mewn niwed o ran iechyd, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle fydd £882 miliwn dros gyfnod o 20 mlynedd y model. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau gofal iechyd uniongyrchol is, arbedion yn sgil llai o droseddu a phlisma, arbedion yn sgil llai o absenoldebau o'r gweithle a phrasiad ariannol o'r manteision iechyd a fesurwyd o ran Blynnyddoedd Oes wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd (QALYs – gwerth £60,000 yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref).



Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>